Estyn

Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate
for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Glan Morfa
# Ffordd Y Morfa
# Abergele
# Conwy
# LL22 7NU

**Dyddiad yr arolygiad: Chwefror 2015**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg
a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**© Hawlfraint y Goron 2015: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 16/04/2015**

## Cyd-destun

Mae Ysgol Gynradd Glan Morfa wedi ei lleoli ar gyrion Abergele o fewn awdurdod Conwy. Daw'r disgyblion o'r dref a'r ardal gyfagos.

Ar hyn o bryd, mae 238 o ddisgyblion ar gofrestr yr ysgol o 4 oed i 11. Derbynnir disgyblion i'r ysgol yn llawn amser ym mis Medi ar ôl eu pen-blwydd yn bedair oed. Ar hyn o bryd, mae 25 o blant yn mynychu'r meithrin yn rhan amser. Mae naw dosbarth yn yr ysgol, gyda chwech ohonynt yn rhai un oedran.

Daw tua 39% o ddisgyblion o gartrefi lle siaredir Cymraeg. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn dod o gefndir gwyn Prydeinig, gyda thua 2% yn dod o gefndiroedd ethnig gwahanol.

Mae 14% o'r dysgwyr yn gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae hyn yn is na chyfartaledd yr awdurdod a'r ganran ar draws Cymru. Mae 21% o ddysgwyr wedi eu hadnabod gan yr ysgol fel rhai ag anghenion dysgu ychwanegol.

Penodwyd y pennaeth i'w swydd ym Medi 2008. Arolygwyd yr ysgol ddiwethaf yn Ebrill 2010.

Y gyllideb ysgol unigol fesul disgybl ar gyfer Ysgol Glan Morfa yn 2014-2015 yw £3,190. Yr uchafswm fesul disgybl mewn ysgolion cynradd yng Nghonwy yw £15,278 a'r lleiafswm yw £3,190. Mae Ysgol Glan Morfa yn safle 59 o'r 59 ysgol gynradd yng Nghonwy o safbwynt y gyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

**Perfformiad presennol**

Mae perfformiad presennol yr ysgol yn dda oherwydd:

- Bod llawer o'r disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu
- O ystyried eu cefndir ieithyddol, mae medrau Cymraeg disgyblion yn datblygu yn fuan iawn
- Bod rhan fwyaf y disgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu medrau siarad a gwrando, darllen ac ysgrifennu
- Bod rhan fwyaf y disgyblion yn cydweithio'n effeithiol gyda'i gilydd mewn gwersi
- Bod ymddygiad bron pob un yn dda iawn

**Rhagolygon gwella**

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd:

- Bod gan y pennaeth weledigaeth glir yn seiliedig ar sicrhau safonau uchel
- Bod gan yr ysgol weithdrefnau a pholisïau effeithiol sy'n cyfrannu'n llwyddiannus tuag at wireddu eu hamcanion
- Bod gan yr ysgol ddealltwriaeth gywir o'i chryfderau a'r meysydd sydd angen iddi eu gwella
- Rhan amlaf, mae'r corff llywodraethol yn herio'r ysgol mewn meysydd sydd angen eu gwella yn effeithiol

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod y disgyblion yn defnyddio eu medrau rhifedd ar y lefel briodol ar draws y cwricwlwm

A2 Gwella presenoldeb disgyblion

A3 Mireinio'r gweithdrefnau asesu ar gyfer dysgu er mwyn sicrhau bod disgyblion yn deall yr hyn sydd angen iddynt ei wneud i wella'u gwaith a chyfleoedd priodol iddynt ymateb i'r adborth

A4 Datblygu ymhellach rôl yr arweinwyr cwricwlwm

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.  Bydd yr awdurdod lleol yn monitro cynnydd yr ysgol.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw’r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu dysgu. O ystyried eu cefndir ieithyddol, mae medrau llafar Cymraeg disgyblion yn datblygu yn fuan iawn. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn defnyddio'r Gymraeg yn hyderus wrth weithio yn y dosbarthiadau ac mewn sefyllfaoedd anffurfiol. Mae hyn yn nodwedd gref drwy'r ysgol.

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, gall rhan fwyaf y disgyblion siarad yn eglur a chyfrannu’n briodol i drafodaethau, gan ganolbwyntio ar y pwnc a chymryd eu tro i siarad. Maent yn gwrando yn ofalus, gan ddeall y prif bwyntiau a gofyn am eglurhad os oes ei angen. Yng nghyfnod allweddol 2, gall rhan fwyaf y disgyblion ddefnyddio iaith ffurfiol yn llwyddiannus gan amrywio mynegiant, tôn a chryfder y llais i gadw diddordeb y gwrandawyr. Mae bron pob disgybl yn gwrando'n dda a pharchu cyfraniadau llafar disgyblion eraill.

Yn y Cyfnod Sylfaen, gall rhan fwyaf y disgyblion ddarllen ar goedd yn hyderus gan roi sylw i’r atalnodi ac amrywio goslef, llais a chyflymder eu darllen yn ystyriol. Mae ganddynt ddiddordeb mewn llyfrau, gyda bron pob un yn dewis eu llyfrau'n annibynnol erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn darllen yn unol â'u hoed a'u gallu yn y ddwy iaith. Maent yn darllen yn hyderus, yn rhugl, a gyda dealltwriaeth dda. Mae’r rhan fwyaf yn defnyddio ystod eang o ffyrdd i'w galluogi i ddarllen geiriau anghyfarwydd yn llwyddiannus. Gall llawer gip ddarllen yn briodol er mwyn darganfod cynnwys bras y testun.

Mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion yn dangos datblygiad parhaus o ran eu medrau ysgrifennu cynnar. Mae llawer o ddisgyblion y Cyfnod Sylfaen yn ysgrifennu'n ystyrlon at ddibenion gwahanol, gan greu testun sy’n gwneud synnwyr i’r darllenydd. Maent yn defnyddio geirfa addas a diddorol, gan ddechrau amrywio brawddegau ac atalnodi'n gywir. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn defnyddio'u medrau ysgrifennu'n briodol yn eu gwaith ar draws y cwricwlwm. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd priodol yn eu medrau ysgrifennu yn y Gymraeg a'r Saesneg ar draws y cwricwlwm. Mae gafael gynyddol o gywirdeb ac atalnodi ganddynt ac mae'r mwyafrif yn trefnu eu gwaith yn effeithiol mewn paragraffau.

Er bod llawysgrifen llawer o ddisgyblion yn llifo ac yn ddarllenadwy, nid yw cyflwyniad gwaith ychydig iawn o ddisgyblion ar draws yr ysgol yn ddigon taclus.

Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd priodol yn eu gafael ar fedrau sylfaenol rhif. Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, gall y rhan fwyaf o ddisgyblion ddefnyddio gwahanol gyfuniadau o arian i dalu am eitemau hyd at £1 a darllen ac ysgrifennu rhifau hyd at 100. Yn gyffredinol, mae medrau mathemateg llawer o ddisgyblion cyfnod allweddol 2 yn gadarn, gyda'r rhan fwyaf yn defnyddio amrywiaeth o ddulliau

cyfrifo yn gywir. Fodd bynnag, prin yw'r esiamplau gan ddisgyblion ar draws yr ysgol o gymhwyso eu medrau rhifedd mewn meysydd a phynciau eraill ar draws y cwricwlwm.

Ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen, mae perfformiad yn 2012 a 2013 ar y lefel ddisgwyliedig ym mhob maes dysgu wedi bod un ai ymysg y 50% is neu’r 25% isaf o’i gymharu ag ysgolion tebyg. Yn 2014, roedd perfformiad yr ysgol yn y 25% uwch ym mhob maes dysgu. Yn gyffredinol, dros y tair blynedd ddiwethaf, mae perfformiad ar y deilliant uwch (deilliant 6) mewn llythrennedd wedi amrywio rhwng y 50% uchaf a’r 50% isaf. Mae perfformiad mewn mathemateg ar y lefel hon wedi bod yn y 50% uchaf yn 2012, ond yn y 25% isaf yn 2013 a 2014.

Yng nghyfnod allweddol 2, mae perfformiad yr ysgol ar y lefel 4 ddisgwyliedig wedi amrywio dros y pedair blynedd ddiwethaf o gymharu ag ysgolion tebyg. Yn gyffredinol, yn 2011 a 2013, roedd perfformiad ym mhob pwnc yn y 25% isaf neu’r 50% is, tra yn y 50% uwch a’r 25% uchaf yn 2012 a 2014. Mae patrwm tebyg mewn perfformiad ysgol ar y lefel uwch (lefel 5).

Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd priodol yn erbyn eu targedau unigol, ond nid yw disgyblion o allu uwch bob amser yn cyflawni cystal ag y gallent yn eu medrau rhifedd.

Nid oes patrwm arwyddocaol o wahaniaeth yng nghyflawniad disgyblion sy’n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim o’u cymharu â’u cyfoedion.

**Lles: Digonol**

Mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ymwybyddiaeth dda o fwyta ac yfed yn iach, yn ogystal â phwysigrwydd diet cytbwys ac ymarfer corff rheolaidd. Maent yn teimlo'n ddiogel a hapus yn yr ysgol ac yn gwybod at bwy i droi am gymorth a chyngor. Mae'r rhan fwyaf yn cydweithio'n effeithiol gyda'i gilydd mewn gwersi ac mae ymddygiad bron pob un yn dda iawn.

Yn gyffredinol, mae disgyblion yn gynyddol hyderus wrth osod a monitro eu targedau eu hunain, ond nid ydynt bob amser yn ddigon clir ynglŷn â sut i wella eu dysgu.

Mae’r cyngor ysgol a'r pwyllgor eco wedi'u sefydlu'n gadarn, ac maent yn deall eu rolau'n glir. Gwnânt gyfraniad gwerthfawr at benderfyniadau yn yr ysgol ac mae'r aelodau yn cymryd eu cyfrifoldebau o ddifri, er enghraifft wrth sicrhau defnydd effeithiol o ynni o amgylch yr ysgol.

Mae'r disgyblion yn cymryd rhan lwyddiannus mewn ystod o weithgareddau lleol a thu hwnt, er enghraifft drwy weithgareddau’r Urdd a chymryd rhan mewn gweithgareddau Sul y Cofio. Mae disgyblion yn dewis ‘ffrindiau’r buarth’ bob tymor sy’n gyfrifol am sicrhau bod pawb yn cyd-dynnu yn ystod amser egwyl. Mae hyn yn eu paratoi yn dda mewn medrau bywyd a medrau cymdeithasol.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon. Rhwng 2010 a 2012, bu presenoldeb disgyblion yn gosod yr ysgol ymysg y 50% uwch a’r 25% uchaf o’i gymharu ag ysgolion tebyg. Fodd bynnag, ers hynny, mae tueddiad o leihad mewn presenoldeb, ac yn 2013 a 2014 mae’n gosod yr ysgol yn y 50% is ar 25% isaf o’i gymharu ag ysgolion tebyg.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Mae'r staff yn cynllunio amrywiaeth o brofiadau dysgu effeithiol, sy'n ennyn diddordeb disgyblion ac sy'n ymateb yn llawn i ofynion y Cyfnod Sylfaen, y Cwricwlwm Cenedlaethol ac addysg grefyddol.

Mae cynlluniau gwaith yn rhoi sylw priodol i ddatblygu medrau llythrennedd ar draws y cwricwlwm gan roi sylw priodol i'r Fframwaith Rhifedd a Llythrennedd. Mae athrawon yn rhoi pwyslais cryf ar godi safonau disgyblion trwy dargedu gweithgareddau darllen a llafar effeithiol. O ganlyniad, mae gan lawer o ddisgyblion afael dda ar fedrau llythrennedd ac maent yn cymhwyso eu medrau'n gadarn ar draws ystod o ffurfiau. Mae cynllunio ar gyfer datblygu medrau TGCh disgyblion yn gadarn ac yn galluogi disgyblion i ddefnyddio amryw o adnoddau cyfoes er mwyn cynorthwyo'u dysgu yn effeithiol. Er hynny, nid yw'r broses newydd o gynllunio medrau rhifedd wedi cael digon o amser i gael effaith gadarnhaol ar ddeilliannau disgyblion.

Mae'r gweithgareddau sydd wedi eu cynllunio ar gyfer yr ardaloedd awyr agored yn darparu profiadau dysgu gwerthfawr i'r disgyblion. Mae gwaith cartref yn atgyfnerthu'r hyn y mae disgyblion yn ei ddysgu yn y dosbarth yn llwyddiannus.

Mae'r ymwybyddiaeth o berthyn i'r gymuned a'r dimensiwn Cymreig wedi ei wreiddio yn ethos yr ysgol ac yn treiddio drwy ei holl weithgareddau. Mae'r ymweliadau addysgol a'r defnydd o'r gymuned leol ac ymwelwyr, megis awduron ac artistiaid Cymru, yn cyfoethogi profiadau dysgu'r disgyblion yn effeithiol.

Mae addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang yn cael ei chyflwyno drwy'r cwricwlwm a thrwy weithgarwch y cyngor ysgol a'r cyngor eco yn dda. Mae'r ysgol yn cynnig ystod o brofiadau gwerthfawr sy'n sicrhau bod gan ddisgyblion ymwybyddiaeth dda o faterion ailgylchu. Mae'r ysgol wedi defnyddio cynllun gan y Cyngor Prydeinig i gyflwyno gwersi Ffrangeg ac Eidaleg er mwyn ehangu gwybodaeth y disgyblion am wledydd tramor.

**Addysgu: Da**

Mae gan y rhan fwyaf o athrawon wybodaeth bynciol dda ac maent yn cynllunio ystod o weithgareddau diddorol sy'n ysgogi'r disgyblion yn effeithiol. Gwna'r cymorthyddion dysgu gyfraniad arwyddocaol tuag at wella dysgu disgyblion. Ar draws yr ysgol, mae'r staff yn modelu iaith Gymraeg graenus sy'n hybu datblygiad iaith lafar y disgyblion yn dda.

Yn y rhan fwyaf o wersi ble mae'r addysgu yn dda, mae athrawon yn esbonio cysyniadau newydd yn glir, yn sicrhau cyflymder da i'r sesiynau, ac yn holi'n heriol. Rhan amlaf, mae rheolaeth dosbarth yn gadarn ac mae staff yn creu ethos cyfeillgar a gofalgar. Yn yr ychydig o ddosbarthiadau lle mae'r addysgu yn llai effeithiol, nid yw'r gweithgareddau'n cynnig her ddigonol i ymestyn y disgyblion mwy abl.

Mae gan yr athrawon strategaethau asesu ar gyfer dysgu priodol. Maent yn cynnig cyfleoedd addas i'r disgyblion asesu eu gwaith eu hunain a gwaith eu cyfoedion. Mae'r athrawon yn rhannu'r amcanion ac yn trafod meini prawf llwyddiant gyda'r disgyblion yn addas. Yn gyffredinol, mae athrawon yn marcio gwaith ysgrifenedig y disgyblion yn drylwyr ac yn rhoi adborth llafar gwerthfawr iddynt yn ystod gwersi. Yn y marcio a'r adborth mwyaf buddiol, mae'r sylwadau yn galluogi disgyblion i wybod pa mor dda y maent yn ei wneud a beth yw'r camau nesaf yn eu dysgu. Fodd bynnag, nid yw'r ffordd ymlaen bob tro yn ddigon clir i ddisgyblion allu gwella eu gwaith, ac nid oes digon o gyfleoedd i ddisgyblion ymateb yn addas i'r adborth.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau trylwyr ar gyfer olrhain cynnydd disgyblion, gan gynnwys defnydd buddiol o brofion safonol ac asesiadau athrawon. Mae athrawon a chymorthyddion yn deall anghenion y disgyblion yn dda ac yn defnyddio'r wybodaeth i osod targedau penodol ac i ddarparu tasgau effeithiol i ddisgyblion er mwyn eu symud ymlaen i'r cam nesaf yn eu dysgu.

Mae rhieni yn derbyn gwybodaeth gynhwysfawr am gynnydd a datblygiad eu plant trwy gyfrwng nosweithiau ymgynghori ac adroddiadau priodol.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r ysgol yn gymuned gynhwysol a gofalgar lle mae oedolion a disgyblion yn dangos parch at ei gilydd ac eraill. Mae lefel uchel y gofal a'r cydweithio rhwng staff a disgyblion yn cyfrannu'n dda at les y ddisgyblion. Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer hybu bwyta ac yfed yn iach yn llwyddiannus. Mae gweithgareddau allgyrsiol yn hyrwyddo ffitrwydd y disgyblion yn effeithiol.

Mae'r ysgol yn hyrwyddo datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol disgyblion yn llwyddiannus. Mae'r agweddau hyn yn cael eu hatgyfnerthu yn dda drwy wasanaethau dosbarth, adran ac ysgol gyfan rheolaidd a thrwy'r weithgareddau'r cwricwlwm.

Gwna'r ysgol ddefnydd da o wasanaethau arbenigol sy'n sicrhau bod disgyblion yn derbyn gwybodaeth a chymorth proffesiynol lle bo angen. Mae'r therapyddion iaith, lleferydd a galwedigaethol yn enghreifftiau o gydweithio effeithiol gydag asiantaethau allanol sy'n gwella deilliannau carfan benodol o ddisgyblion. Mae'r disgyblion a rhieni yn teimlo'n hyderus i gysylltu gydag aelodau o staff os oes angen cyngor ac arweiniad arnynt.

Mae trefniadau'r ysgol ar gyfer diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

Mae disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn manteisio'n llawn ar y Cwricwlwm Cenedlaethol. Mae'r staff yn adnabod anghenion disgyblion yn gynnar ac yn targedu cefnogaeth ychwanegol a gweithredu rhaglenni cymorth pwrpasol. Mae'r cydlynydd anghenion dysgu ychwanegol yn cydweithio'n agos â staff a rhieni ac yn cytuno cynlluniau addysg unigol gynhwysfawr. Mae'r disgyblion yn rhan lawn o'r broses ac mae eu targedau yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae ethos cynhwysol gan yr ysgol a theimla pob disgybl ei fod yn cael ei werthfawrogi'n llawn. Mae'n gymuned hapus gydag awyrgylch teuluol lle cynigir mynediad cyfartal i'r cwricwlwm i bob disgybl. Mae'r staff yn gosod disgwyliadau uchel o ran ymddygiad. Mae cydweithrediad, gofal a goddefgarwch rhwng oedolion a disgyblion a rhwng disgyblion a'i gilydd.

Mae adeiladau'r ysgol yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda. Mae ardaloedd allanol yr ysgol yn annog y disgyblion i werthfawrogi cadw'n iach a'r amgylchedd. Mae'r safle allanol eang yn raenus, taclus a diogel. Gwneir defnydd pwrpasol o bob rhan o'r adeilad ac o'r adnoddau awyr agored i fodloni anghenion y Cyfnod Sylfaen yn briodol.

Mae gan yr ysgol gyflenwad addas o adnoddau ar gyfer gwersi. Mae'r arddangosfeydd yn y dosbarthiadau ac ar draws yr ysgol yn ddeniadol, lliwgar ac yn dathlu llwyddiannau'r disgyblion yn effeithiol. Mae hyn yn ysgogi'r dysgu.

| | |
|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir yn seiliedig ar sicrhau safonau uchel a lles disgyblion. Mae'n llwyddo i gyfleu'r weledigaeth i'r staff, disgyblion, rhieni a'r llywodraethwyr. Caiff gefnogaeth dda gan y dirprwy a'r staff.

Mae swydd ddisgrifiadau'r staff yn glir ac maent yn cyflawni eu rolau a'u cyfrifoldebau'n effeithiol. Mae'r uwch dim rheoli, sy'n cynnwys y pennaeth a'r dirprwy, yn rhoi arweiniad clir i'r staff. Yn ddiweddar, mae'r ysgol wedi mynd ati i ddatblygu rôl arweinyddion cwricwlwm. Fodd bynnag, mae'n rhy fuan i weld effaith eu gwaith.

Mae gan yr ysgol weithdrefnau a pholisïau effeithiol sy'n cyfrannu'n llwyddiannus tuag at wireddu ei hamcanion. Mae'r ysgol yn ymateb yn briodol i nifer o flaenoriaethau lleol a chenedlaethol. Mae egwyddorion y Cyfnod Sylfaen yn cael eu gweithredu'n llawn ac yn cael effaith briodol ar safonau'r disgyblion. Mae'r ysgol yn ymateb i flaenoriaethau cenedlaethol yn briodol, er enghraifft drwy defnyddio'r grant amddifadedd yn effeithiol ar gyfer codi safonau grwpiau o ddysgwyr.

Mae'r corff llywodraethol yn darparu cefnogaeth effeithiol i fywyd a gwaith yr ysgol. Mae llywodraethwyr yn derbyn adroddiadau gwerthfawr yn rheolaidd, ac yn ymwybodol iawn o flaenoriaethau'r ysgol. Mae ganddynt wybodaeth dda am berfformiad yr ysgol mewn cymhariaeth ag ysgolion eraill ac yn ystyried safonau trwy graffu ar lyfrau disgyblion. Rhan amlaf, maent yn herio'r ysgol mewn meysydd sydd angen eu gwella yn effeithiol.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae gan yr ysgol ddealltwriaeth gywir o'i chryfderau a'r meysydd sydd angen iddi eu gwella. Rhoddir sylw da i farn staff, rhieni, llywodraethwyr a'r disgyblion fel rhan o'r broses hunanarfarnu. Mae'r ysgol yn selio'r hunanarfarniad ar dystiolaeth o fonitro gwersi, craffu ar waith disgyblion a dadansoddiad manwl o ddata. Mae'r gweithdrefnau hyn yn cyfrannu'n effeithiol at yr adroddiad hunanarfarnu sy'n cynnig darlun cytbwys o'r ysgol. Er hyn, nid yw'r adroddiad bob tro'n arfarnu effaith strategaethau yn ddigon effeithiol.

Mae cyswllt amlwg rhwng deilliannau'r adroddiad hunanarfarnu a blaenoriaethau'r cynllun datblygu ysgol. Mae'r cynllun yn nodi'n glir y camau gweithredu er mwyn sicrhau gwelliant. Mae wedi ei gostio'n ofalus ac mae'r amserlen weithredu a chyfrifoldebau staff yn glir. Mae'n ddogfen weithredol sy'n cael ei adolygu'u gyson gan y staff a'r llywodraethwyr. Fodd bynnag, nid yw pob blaenoriaeth yn cynnwys targedau sy'n ddigon heriol neu'n fesuradwy.

Mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd cadarn o ran mynd i'r afael ag argymhellion yr arolygiad diwethaf. Mae hyn wedi arwain at welliant mewn safonau a darpariaeth.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae'r ysgol yn gweithio'n llwyddiannus gydag ystod o bartneriaid. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar gyrhaeddiad a lles disgyblion. Mae partneriaeth gadarn rhwng yr ysgol a'r rhieni ac mae'r ysgol yn elwa o weithgareddau'r gymdeithas rhieni ac athrawon. Maent yn prynu adnoddau addas, fel llyfrau darllen, sy'n cyfoethogi dysgu'r disgyblion.

Mae'r ysgol yn cydweithio'n agos â'r Cylch Meithrin sydd ar y safle er mwyn sicrhau bod plant yn ymgartrefu'n fuan yn y dosbarth derbyn. Mae'r trefniadau ar gyfer trosglwyddo disgyblion hŷn i'r ysgol uwchradd yn eu paratoi'n dda at y cam nesaf yn eu haddysg.

Mae'r ysgol yn meithrin partneriaeth fuddiol gyda gwasanaethau'r awdurdod lleol a'r consortia ar gyfer datblygu staff ac ymateb i anghenion disgyblion. Mae'r athrawon yn cydweithio'n effeithiol ag ysgolion cyfagos, ysgolion y teulu a'r ysgol uwchradd. Maent yn elwa o'r profiadau hyn ac mae athrawon yn datblygu eu medrau wrth asesu a chymedroli gwaith disgyblion, creu adnoddau addysgol ar y cyd a rhannu arfer dda.

Mae partneriaeth briodol yn bodoli rhwng yr ysgol a'r gymuned leol. Mae gan yr ysgol gysylltiadau gwerthfawr â chapeli'r ardal a busnesau lleol. Mae cyfraniad y disgyblion tuag at weithgareddau cymunedol, ynghyd ag ymwelwyr a ddaw i'r ysgol, yn cyfoethogi'r profiadau dysgu yn dda.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae'r ysgol yn rheoli ei hadnoddau'n fedrus. Mae digon o athrawon i ymdrin â phob agwedd ar waith yr ysgol. Gwneir defnydd effeithiol o arbenigedd staff ac mae cymorthyddion dosbarth yn cydweithio'n effeithiol â'r athrawon, gan gefnogi'r disgyblion yn llwyddiannus wrth eu gwaith.

Mae athrawon yn defnyddio’u hamser ar gyfer cynllunio, paratoi ac asesu yn effeithiol. Mae sylw dyledus i ddatblygiad proffesiynol parhaus yr holl staff ac mae prosesau rheoli perfformiad yn cefnogi hyn yn briodol. Mae gan yr ysgol adnoddau addas sy’n atgyfnerthu profiadau dysgu disgyblion.

Mae’r ysgol yn gweithio’n effeithiol o fewn rhwydweithiau o arfer broffesiynol gydag ysgolion y clwstwr, ac mae hyn yn cyfrannu’n arwyddocaol at gyfoethogi’r ddarpariaeth, er enghraifft wrth sicrhau asesu a lefelu gwaith disgyblion yn fwy cywir.

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd addas o'r grant amddifadedd i gefnogi grwpiau penodol o ddisgyblion er mwyn codi eu safonau darllen a rhifedd. Gyda chefnogaeth y corff llywodraethol, mae'r pennaeth yn rheoli'r defnydd o adnoddau ariannol yn effeithiol i gefnogi blaenoriaethau'r ysgol.

O ystyried y deilliannau da, mae'r ysgol yn rhoi gwerth da am arian.

# Atodiad 1:  Sylwadau ar ddata perfformiad

**6622112 - Ysgol Glan Morfa**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 236 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 10.9 | |
| Grŵp PYD | 2 | (8%<PYD<=16%) |

**Cyfnod Sylfaen**

| | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2** | 26 | 30 | 33 |
| **Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)** | 76.9 | 76.7 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 1 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 26 | 30 | 33 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 80.8 | 86.7 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 1 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 30.8 | 23.3 | 33.3 |
| Chwartel meincnod | 2 | 3 | 2 |
| **Datblygiad mathemategol (MDT)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 26 | 30 | 33 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 84.6 | 86.7 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 3 | 1 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 26.9 | 13.3 | 15.2 |
| Chwartel meincnod | 2 | 4 | 4 |
| **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)** | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 26 | 30 | 33 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 92.3 | 96.7 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 1 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 46.2 | 23.3 | 51.5 |
| Chwartel meincnod | 2 | 4 | 3 |

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disglybion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'l gilydd.
* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

**6622112 - Ysgol Glan Morfa**

| | |
|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 236 |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 10.9 |
| Grŵp PYD | 2 (8%<PYD<=16%) |

**Cyfnod allweddol 2**

| | 2011 | 2012 | 2013 | 2014 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6** | 18 | 14 | 15 | 20 |
| **Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)** | 77.8 | 92.9 | 86.7 | 95.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 2 | 3 | 2 |
| **Saesneg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 18 | 14 | 15 | 20 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 77.8 | 100.0 | 86.7 | 95.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 1 | 4 | 2 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 0.0 | 35.7 | 40.0 | 35.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 3 | 2 | 3 |
| **Cymraeg iaith gyntaf** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 18 | 14 | 15 | 20 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 77.8 | 92.9 | 86.7 | 95.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 2 | 3 | 2 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 5.6 | 42.9 | 20.0 | 40.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 1 | 3 | 2 |
| **Mathemateg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 18 | 14 | 15 | 20 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 88.9 | 92.9 | 86.7 | 95.0 |
| Chwartel meincnod | 3 | 2 | 4 | 2 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 0.0 | 21.4 | 33.3 | 65.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 4 | 3 | 1 |
| **Gwyddoniaeth** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 18 | 14 | 15 | 20 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 100.0 | 100.0 | 93.3 | 95.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 3 | 3 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 5.6 | 35.7 | 26.7 | 45.0 |
| Chwartel meincnod | 4 | 2 | 4 | 2 |

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iaith=cym

# Atodiad 2

## Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymatebion i'r holiadur i ddysgwyr

Arolwg cynradd (pob disgybl)

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses Nifer o ymatebion | Agree Cytuno | Disagree Anghytuno | |
|---|---|---|---|---|
| I feel safe in my school. | 109 | 105<br>96%<br>98% | 4<br>4%<br>2% | Rwy'n teimlo'n ddiogel yn fy ysgol. |
| The school deals well with any bullying. | 104 | 94<br>90%<br>92% | 10<br>10%<br>8% | Mae'r ysgol yn delio'n dda ag unrhyw fwlio. |
| I know who to talk to if I am worried or upset. | 108 | 99<br>92%<br>97% | 9<br>8%<br>3% | Rwy'n gwybod pwy i siarad ag ef/â hi os ydw I'n poeni neu'n gofidio. |
| The school teaches me how to keep healthy | 109 | 107<br>98%<br>97% | 2<br>2%<br>3% | Mae'r ysgol yn fy nysgu i sut i aros yn iach. |
| There are lots of chances at school for me to get regular exercise. | 108 | 103<br>95%<br>96% | 5<br>5%<br>4% | Mae llawer o gyfleoedd yn yr ysgol i mi gael ymarfer corff yn rheolaidd. |
| I am doing well at school | 105 | 101<br>96%<br>96% | 4<br>4%<br>4% | Rwy'n gwneud yn dda yn yr ysgol. |
| The teachers and other adults in the school help me to learn and make progress. | 108 | 105<br>97%<br>99% | 3<br>3%<br>1% | Mae'r athrawon a'r oedolion eraill yn yr ysgol yn fy helpu i ddysgu a gwneud cynnydd. |
| I know what to do and who to ask if I find my work hard. | 107 | 103<br>96%<br>98% | 4<br>4%<br>2% | Rwy'n gwybod beth I'w wneud a gyda phwy i siarad os ydw I'n gweld fy ngwaith yn anodd. |
| My homework helps me to understand and improve my work in school. | 107 | 84<br>79%<br>91% | 23<br>21%<br>9% | Mae fy ngwaith cartref yn helpu i mi ddeall a gwella fy ngwaith yn yr ysgol. |
| I have enough books, equipment, and computers to do my work. | 107 | 92<br>86%<br>95% | 15<br>14%<br>5% | Mae gen i ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i wneud fy ngwaith. |
| Other children behave well and I can get my work done. | 103 | 83<br>81%<br>77% | 20<br>19%<br>23% | Mae plant eraill yn ymddwyn yn dda ac rwy'n gallu gwneud fy ngwaith. |
| Nearly all children behave well at playtime and lunch time | 107 | 91<br>85%<br>84% | 16<br>15%<br>16% | Mae bron pob un o'r plant yn ymddwyn yn dda amser chwarae ac amser cinio. |

## Ymateb i'r holiadur i rieni

Yn dynodi'r meincnod – mae hwn yn gyfanswm o'r holl ymatebion hyd hyn ers mis Medi 2010.

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Overall I am satisfied with the school. | 98 | 54 | 40 | 3 | 0 | 1 | Rwy'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol. |
| | | 55% | 41% | 3% | 0% | | |
| | | 63% | 33% | 3% | 1% | | |
| My child likes this school. | 98 | 70 | 24 | 3 | 0 | 1 | Mae fy mhlentyn yn hoffi'r ysgol hon. |
| | | 71% | 24% | 3% | 0% | | |
| | | 73% | 25% | 1% | 0% | | |
| My child was helped to settle in well when he or she started at the school. | 98 | 63 | 33 | 1 | 0 | 1 | Cafodd fy mhlentyn gymorth i ymgartrefu'n dda pan ddechreuodd yn yr ysgol. |
| | | 64% | 34% | 1% | 0% | | |
| | | 72% | 26% | 1% | 0% | | |
| My child is making good progress at school. | 98 | 56 | 39 | 1 | 0 | 2 | Mae fy mhlentyn yn gwneud cynnydd da yn yr ysgol. |
| | | 57% | 40% | 1% | 0% | | |
| | | 61% | 34% | 3% | 1% | | |
| Pupils behave well in school. | 97 | 55 | 39 | 0 | 1 | 2 | Mae disgyblion yn ymddwyn yn dda yn yr ysgol. |
| | | 57% | 40% | 0% | 1% | | |
| | | 46% | 45% | 4% | 1% | | |
| Teaching is good. | 96 | 53 | 39 | 1 | 1 | 2 | Mae'r addysgu yn dda. |
| | | 55% | 41% | 1% | 1% | | |
| | | 60% | 35% | 2% | 0% | | |
| Staff expect my child to work hard and do his or her best. | 60 | 36 | 20 | 0 | 0 | 4 | Mae'r staff yn disgwyl i fy mhlentyn weithio'n galed ac i wneud ei orau. |
| | | 60% | 33% | 0% | 0% | | |
| | | 63% | 33% | 1% | 0% | | |
| The homework that is given builds well on what my child learns in school. | 57 | 29 | 18 | 1 | 0 | 9 | Mae'r gwaith cartref sy'n cael ei roi yn adeiladu'n dda ar yr hyn mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol. |
| | | 51% | 32% | 2% | 0% | | |
| | | 47% | 40% | 6% | 1% | | |
| Staff treat all children fairly and with respect. | 98 | 58 | 36 | 1 | 1 | 2 | Mae'r staff yn trin pob plentyn yn deg a gyda pharch. |
| | | 59% | 37% | 1% | 1% | | |
| | | 58% | 33% | 4% | 1% | | |
| My child is encouraged to be healthy and to take regular exercise. | 96 | 53 | 41 | 0 | 0 | 2 | Caiff fy mhlentyn ei annog i fod yn iach ac i wneud ymarfer corff yn rheolaidd. |
| | | 55% | 43% | 0% | 0% | | |
| | | 59% | 36% | 2% | 0% | | |
| My child is safe at school. | 97 | 65 | 30 | 0 | 0 | 2 | Mae fy mhlentyn yn ddiogel yn yr ysgol. |
| | | 67% | 31% | 0% | 0% | | |
| | | 66% | 31% | 1% | 0% | | |
| My child receives appropriate additional support in relation to any particular individual needs'. | 90 | 41 | 29 | 4 | 0 | 16 | Mae fy mhlentyn yn cael cymorth ychwanegol priodol mewn perthynas ag unrhyw anghenion unigol penodol. |
| | | 46% | 32% | 4% | 0% | | |
| | | 50% | 34% | 4% | 1% | | |
| I am kept well informed about my child's progress. | 97 | 41 | 41 | 13 | 0 | 2 | Rwy'n cael gwybodaeth gyson am gynnydd fy mhlentyn. |
| | | 42% | 42% | 13% | 0% | | |
| | | 49% | 40% | 8% | 2% | | |

| | Number of responses<br>Nifer o ymatebion | Strongly Agree<br>Cytuno'n gryf | Agree<br>Cytuno | Disagree<br>Anghytuno | Strongly disagree<br>Anghytuno'n gryf | Don't know<br>Ddim yn gwybod | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| I feel comfortable about approaching the school with questions, suggestions or a problem. | 97 | 48<br>49% | 38<br>39% | 9<br>9% | 0<br>0% | 2 | Rwy'n teimlo'n esmwyth ynglŷn â gofyn cwestiwn i'r ysgol, gwneud awgrymiadau neu nodi problem. |
| | | 62% | 31% | 4% | 2% | | |
| I understand the school's procedure for dealing with complaints. | 95 | 43<br>45% | 31<br>33% | 5<br>5% | 0<br>0% | 16 | Rwy'n deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion. |
| | | 45% | 39% | 7% | 2% | | |
| The school helps my child to become more mature and take on responsibility. | 59 | 27<br>46% | 24<br>41% | 5<br>8% | 0<br>0% | 3 | Mae'r ysgol yn helpu fy mhlentyn i ddod yn fwy aeddfed ac i ysgwyddo cyfrifoldeb. |
| | | 56% | 38% | 2% | 0% | | |
| My child is well prepared for moving on to the next school or college or work. | 83 | 33<br>40% | 26<br>31% | 3<br>4% | 0<br>0% | 21 | Mae fy mhlentyn wedi'i baratoi'n dda ar gyfer symud ymlaen i'r ysgol nesaf neu goleg neu waith. |
| | | 43% | 33% | 4% | 1% | | |
| There is a good range of activities including trips or visits. | 95 | 44<br>46% | 32<br>34% | 14<br>15% | 2<br>2% | 3 | Mae amrywiaeth dda o weithgareddau, gan gynnwys teithiau neu ymweliadau. |
| | | 54% | 38% | 5% | 1% | | |
| The school is well run. | 95 | 45<br>47% | 41<br>43% | 5<br>5% | 0<br>0% | 4 | Mae'r ysgol yn cael ei rhedeg yn dda. |
| | | 61% | 32% | 3% | 2% | | |

# Atodiad 3

## Y tîm arolygu

| | |
|---|---|
| Tony John Bate | Arolygydd Cofnodol |
| Kevin Davies | Arolygydd Tîm |
| David Owen Jenkins | Arolygydd Lleyg |
| Peter John Leggett | Arolygydd Cymheiriaid |
| Hugh Rhys-Williams | Enwebai'r Ysgol |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

**Grwpiau blwyddyn, y Cyfnod Sylfaen a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac awdurdodau lleol.

Mae'r tabl canlynol yn nodi'r amrediad oedrannau sy'n berthnasol i bob grŵp blwyddyn. Er enghraifft, mae Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, a Blwyddyn 13 yw'r grŵp blwyddyn sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | Meithrin | Derbyn | B1 | B2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 3-4 | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r Cyfnod Sylfaen a'r cyfnodau allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Meithrin, Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

# Rhestr termau – Cynradd

**Dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS)**

Mae cynnydd mewn dysgu drwy'r Cyfnod Sylfaen yn cael ei ddangos gan ddeilliannau (o ddeilliant 1 i ddeilliant 6).

Mae dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn tri maes dysgu yn y Cyfnod Sylfaen:

- llythrennedd, iaith a chyfathrebu yn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- datblygiad mathemategol
- datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol

Erbyn diwedd y Cyfnod Sylfaen, yn saith oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd deilliant 5 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd deilliant 6.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y deilliant disgwyliedig (deilliant 5) yn y tri maes uchod i gyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen.

**Y dangosydd pwnc craidd (DPC)**

Mae cynnydd mewn dysgu trwy gyfnod allweddol 2 yn cael ei ddangos gan lefelau (lefel 1 i lefel 5).

Mae'r dangosydd pwnc craidd yng nghyfnod allweddol 2 yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig ym mhynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol:

- Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf
- mathemateg
- gwyddoniaeth

Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddisgyblion gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r disgyblion mwy galluog gyrraedd lefel 5.

Rhaid i ddisgyblion gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf (lefel 4) yn y tri phwnc craidd er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall adroddiadau arolygu gyfeirio at berfformiad ysgol o gymharu â theulu o ysgolion neu ag ysgolion neu sydd â chyfran weddol debyg o ddisgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim.

Mewn perthynas â phrydau ysgol am ddim, mae ysgolion yn cael eu gosod yn un o bump o fandiau yn ôl y duedd tair blynedd yng nghyfran y disgyblion sydd â hawl i gael prydau ysgol am ddim yn yr ysgol.  Caiff perfformiad yr ysgol ei roi mewn chwarteli wedyn (o'r 25% uchaf i'r 25% isaf) mewn perthynas â pha mor dda mae'n gwneud o gymharu ag ysgolion eraill yn yr un band prydau ysgol am ddim.

Aeth Llywodraeth Cymru ati i greu'r teuluoedd o ysgolion (grŵp o 11 o ysgolion yn nodweddiadol) i alluogi ysgolion i gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru. Mae cyfansoddiad y teuluoedd yn defnyddio nifer o ffactorau. Mae'r rhain yn cynnwys cyfran y disgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, a'r gyfran sy'n byw yn yr 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru. Maent hefyd yn defnyddio cyfran y disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad o anghenion addysgol arbennig, a disgyblion sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.